Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Talu am Ofal yng Nghymru**

**Dyddiad:** **30 Mawrth 2010**

**Gan:** **Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**

Heddiw, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar ddiwygio'r system ofal a chymorth. Eir ati yn y Papur Gwyn i amlinellu glasbrint Llywodraeth y DU ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn Lloegr. Eir ati hefyd i nodi amryfal gynigion ar gyfer diwygio'r modd y caiff gofal ei ariannu, a bydd gan y cynigion hyn oblygiadau i Gymru.

Yng Nghymru, mae gennym fodel unigryw ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, ac rydym yn dal o'r farn mai awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol integredig ar gyfer pob oedran, sydd wedi'u gwreiddio mewn llywodraeth leol, yw'r ffordd ymlaen. Cafodd ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau ei hamlinellu yn 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol' (2007), ac mae'r mater yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, a fydd yn cyflwyno'i adroddiad i mi yn ystod yr hydref. Mae'r modd y caiff gofal cymdeithasol ei ddarparu yng Nghymru yn un o'r pwerau datganoledig allweddol, a byddwn yn parhau i fynd ar drywydd dull o weithredu sy'n briodol i Gymru, ac sy'n anelu at ddod o hyd i atebion Cymreig i'r heriau sy'n wynebu Cymru.

Mae'r modd y telir am ofal yn rhychwantu swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau sydd heb eu datganoli, ac mae meysydd allweddol megis trethi,

Yswiriant Gwladol a budd-daliadau lles yn swyddogaethau sydd heb eu datganoli. O'r herwydd, ac o gofio bod llawer o'r ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol yn cael ei gwneud ar gyfer Cymru a Lloegr, bydd yn hanfodol i ni barhau i gydweithio â Llywodraeth y DU (a chyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn ôl y gofyn) er mwyn sefydlu system newydd o dalu am ofal sy'n deg, yn fforddiadwy, ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Daeth ein hymgynghoriad am y Papur Gwyrdd 'Talu am Ofal yng Nghymru' i ben y ddiweddar, a byddaf yn mynd ati yn y man i gyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw. Bydd hi'n arbennig o bwysig bod canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw, ac ymatebion pellach gan randdeiliaid o Gymru, yn cael eu hystyried yn ystod yr ymgynghoriad am y Papur Gwyn.

Cynigir yn y Papur Gwyn y dylid mynd ati i ddiwygio fesul cam, gan symud yn y pen draw at system gynhwysfawr y telir amdani drwy Dreth Etifeddiant. Bydd y materion sy'n ymwneud ag ariannu yn cael eu hystyried gan Gomisiwn sydd newydd ei sefydlu, a bydd ef yn mynd ati i geisio sicrhau cytundeb trawsbleidiol am y dull gorau o weithredu yn hyn o beth. Ni fyddai'n cwblhau ei waith cyn 2015, felly, ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth y byddai ei hangen er mwyn sefydlu unrhyw system ariannu newydd yn cael ei chyflwyno tan y Senedd ar ôl yr un nesaf.

Rydym yn croesawu'r dull hwn o weithredu fesul cam, a'r ymrwymiad i sicrhau bod cytundeb ynghylch y model ariannu a ffefrir. Er bod rhanddeiliaid o Gymru wedi croesawu'r drafodaeth am dalu am ofal, ac o'r farn ei bod yn amserol, maent wedi dweud wrthym fod angen gwybodaeth fwy manwl arnynt am yr amryfal opsiynau ac am faint y byddai eu rhoi ar waith yn debygol o gostio, cyn y gallant roi sêl eu bendith ar unrhyw un o'r opsiynau.

Rwyf yn arbennig o falch o weld bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu cadw'r Lwfans Gweini a'r Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer pobl sy'n 65 oed ac yn hŷn. Roedd hi'n amlwg o'r ymatebion a ddaeth i law ar ôl i ni fynd ati i ymgynghori am y Papur Gwyrdd nad oedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yng Nghymru o blaid y syniad o integreiddio'r budd-dal pwysig hwn gyda chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae llawer o bobl hŷn yn gwerthfawrogi'r

budd-daliadau hyn am eu bod yn rhoi hyblygrwydd iddynt ac yn caniatáu iddynt reoli'r modd y diwellir eu hanghenion gofal neu i dalu am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Mae'r Papur Gwyn yn disgrifio ar ba sail y sefydlir Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr. Yng Nghymru, byddwn yn pennu ein cyfeiriad ein hunain yng ngoleuni argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol, sydd wrthi ar hyn o bryd yn casglu tystiolaeth oddi wrth randdeiliaid. Er hynny, mae'r un egwyddorion yn berthnasol yng Nghymru: gwasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth, sy'n diwallu anghenion asesedig mewn modd cyson, sy'n cael eu cydgysylltu â'r GIG a gwasanaethau Tai, ac sy'n atal anghenion rhag dwysáu. Rydym yn anelu hefyd, drwy ein Mesur Cynulliad, i wella'r modd yr eir ati i ystyried anghenion gofalwyr.

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu cynlluniau i newid rôl y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol ac i gyflwyno system o drwyddedu gweithwyr gofal. Er ein bod yn mynd ati mewn ffordd wahanol yng Nghymru i ymdrin â materion yn ymwneud â'r gweithlu, afraid dweud y byddwn yn trafod goblygiadau'r cynigion hyn gyda Llywodraeth y DU.  Rwyf eisoes wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl Cenedlaethol ar y Gweithlu i'm cynghori ar sut y dylem ddatblygu a chefnogi'r gweithlu gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol, sy'n chwarae rhan mor anhepgor yn y gwaith o ofalu am bobl agored i niwed. Byddaf yn gofyn i'r Grŵp Gorchwyl, wrth iddo gyflwyno ei argymhellion i mi yn yr hydref, edrych ar yr hyn y mae'r Papur Gwyn yn ei ddweud am y gweithlu.

Eir ati yn y Papur Gwyn hefyd i amlinellu cynigion i ddatblygu corff annibynnol a fydd yn gyfrifol am baratoi canllawiau cenedlaethol ac a fydd yn fanc gwybodaeth ar gyfer y sector. Bwriedir sicrhau y bydd y corff hwn yn pontio'r ffin draddodiadol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Er nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynghylch pa gorff fydd yn gwneud y gwaith hwn yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd goblygiadau i'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, sy'n gorff ar lefel Cymru a Lloegr. Yn ddiweddar, aethom ati i sefydlu'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yng Nghymru, ond byddwn yn trafod gyda'r Adran Iechyd sut y gall y

cynlluniau sydd ganddi hi ar y gweill helpu i ategu ac i adeiladu ar y cynnydd yr ydym yn ei wneud o ran ymchwil ym maes gofal cymdeithasol.

Byddaf yn cyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda hyn am hynt y gwaith a fydd yn mynd rhagddo yn y dyfodol i ddatblygu'n polisi am y materion pwysig hyn.